

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Seilwaith Economaidd Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

Lee Waters AS

Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, gan weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

25 Ionawr 2022

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 lle bo Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i sefydlu gan Reoliadau a bod swyddogaeth datblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 wedi'i rhoi i'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Maent hefyd yn gwneud addasiadau canlyniadol i ddarpariaethau trosiannol a deddfwriaeth, a hefyd yn dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014.

Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 28 Chwefror 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi.

3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adrannau 173 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 173 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed sydd yn eu barn nhw yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf neu o ganlyniad iddi neu er mwyn ei rhoi mewn grym yn llawn.

Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn Senedd Cymru.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru, gwneir y Rheoliadau gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a daw i rym ar 28 Chwefror 2022.

4. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

Mae adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod trafndiaeth lleol sydd â'i ddalgyrch yng Nghymru baratoi dogfen o'r enw y Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI). Rhaid i'r cynllun hwn gynnwys ei bolisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog cludiant diogel, integredig, effeithlon ac economaidd i'w hardal, oddi mewn iddi ac ohoni, a'i bolisïau yn ei ardal ar gyfer rhoi'r WTS ar waith. Roedd Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014 yn caniatáu i awdurdodau lleol gynhyrchu CTLIau ar y cyd

Mae yna naw CTLI yng Nghymru sy'n gwasanaethu ardaloedd yr awdurdodau lleol canlynol:

1. Gogledd Cymru (Conwy, Gwynedd (Arfon a Dwyfor), Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam Ynys Môn)
2. Y Canolbarth (Ceredigion, Gwynedd (Meirionnydd), Powys)

3. De-orllewin Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin)
4. Cymoedd y De-Ddwyrain (Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen)
5. Bro Morgannwg
6. Caerdydd
7. Casnewydd
8. Pen-y-bont ar Ogwr
9. Sir Fynwy

Cafodd y CTLlau eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar 20 Mai 2015. Mae adran 109B(3) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod trafndiaeth lleol gyfnewid y cynllun am gynllun newydd o fewn pum mlynedd ar ôl dyddiad ei gymeradwyo o dan adran 109A. Mae adran 109B(5) o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trafndiaeth lleol gyflwyno eu cynllun newydd i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd ar ôl cymeradwyo'r cynllun. Mae hyn yn golygu y caiff y CTLlau eu disodli erbyn 20 Mai 2020. Rhoddwyd estyniad o 2 flynedd i hyn tan fis Mai 2022 er mwyn i'r CTLlau allu ystyried y WTS newydd.

Bydd y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol yn Neddf Trafnidiaeth 2000 i ddatblygu polisïau trafndiaeth a sefydlu CTLlau ar gyfer eu hardaloedd yn awr yn trosglwyddo i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021 a wnaed o dan adrannau 74, 83 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol yng Nghymru: Gogledd, Canolbarth, De Orllewin a'r De-ddwyrain. Trosglwyddwyd y swyddogaethau cynllunio trafndiaeth ar 30 Mehefin 2022.

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021, a ddaw i rym ar 28 Chwefror 2022, yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 lle bo Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi'i sefydlu gan Reoliadau a bod y swyddogaeth datblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi'i rhoi i'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae'r addasiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cydbwyllgor Corfforaethol ddatblygu polisïau trafndiaeth a sefydlu cynllun trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal.

Mae'r rheoliadau hyn yn:

1. Diwygio deddfwriaeth gysylltiedig sy'n cyfeirio at CTLlau, gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (OS 2005/2839), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (OS 2007/399), Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
2. Sicrhau bod y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y CTLlau presennol yn parhau mewn grym nes bod y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol newydd yn dod i rym.

3. Dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gydweithio i gynhyrchu CTLlau ar y cyd.

5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol a darpariaethau trosiannol a wneir ganddynt.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn gan eu bod yn gwneud diwygiadau technegol canlyniadol i ddarpariaethau trosiannol a deddfwriaeth sy'n bod eisoes ac nad ydynt yn gosod na'n gostwng costau i fusnesau, elusennau neu fudiadau gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.